

5.105

CAN NEWYDD,

YN RHODDI HANES

JOSEPH HARDIN,

O BLWYF BRADFORD,

YN SWYDD HENFFORDD,

Y modd y darfu amcanu lladd ei Wraig, y 9fed o Hydref diweddaf, oherwydd na chai Bonio y Bibl oedd ei wraig wedi benthyca oddiar Gymydoges, am nad oedd ganddi un ei hunan.

Cenir ar y "Dôn Fechan."

- 1 Unwaith eto mewn amynedd
Galwa'i'r gwiwddoeth Gymry gweddaidd;
Mae gen'i gan yn llawn dychryndod,
Gwrandewch ar gyffes hanes hynod.
- 2 O Sir Henffordd daeth er dychryn
Newydd tost sydd geni'n destyn,
O bentref Bradford, hyn sy'n hispys,
Mae yno heddy' le galarus.
- 3 'Roedd gwr a'i enw Joseph Hardin,
A chando wraig a phedwar plentyn,
Hwn ddaeth i ddiwedd tra dychrynlyd
Trwy rodio ffyrdd y magla' tanllyd
- 4 Saer oedd ef wrth ei gelfyddyd,
Gallasai gael bywioliaeth hyfryd,

- Ond ef a rodiai ffyrdd anwiredd,
Sef llwybra' gwlad y rhincian dannedd
- 5 Fe garai feddwod a'i holl galon,
Y tyngwyr ydoedd ei gyfeillion;
Fe 'mroes i ddigio Duw bendigaidd,
Nes llwyr ddinystrio ei gorph a'i enaid.
- 6 O ddydd i ddydd fe fyddai'n feddw,
Er gwel'd ei blant mewn adfyd chwerv;
Cynghorion dwys ei wraig ni phrisia,
Na dagrau 'i blant na'u dirfawr eisia'.
- 7 Ni feidda'i briod mo'i gynghori,
Gan mor greulon oedd ef iddi;
Y plant a aethant lawer noswaith
I maes o'r tŷ rhag cael marwolaeth.
- 8 O mor drymed oedd ei chalon,
Pwy byth all ddirnad ei thrallodion?
O nos i nos yn byw mewn ofnau,
Mae'r gwr a fwrdd-dra'i phlant a hithau.
- 9 Yntau bonia'i ddillad hyfryd,
A'i ddodrefn gwychion werthai hefyd,
Gan fyn'd yn mlaen yn ffyrdd y diafol,
At ffyrnig ffau y gwae trag'wyddol!
- 10 Fe werthai wely, pwy na wylai?
O dan ei anwyl wraig ac yntau, [dod
A gwario rhain mewn llwybrau meddw-
Sy'n arwain myrdd i'r pwll diwaelod!
- 11 'Roedd ei wraig a'i blant mor noethlyd
Fel nad oedd ganddynt grys i newid;
Mewn bŵthyn gwael heb gael ymgeledd
O waith ei flys a'i ddrwg oferedd!
- 12 A'i wraig synwyrol, ddoniol ddynes
Fenthyciodd Fibl ei chym'doges,

- I ddarllen gair ei Phrynwr gwiwlan,
Am nad oedd ganddi'r un ei hunan.
- 13 Prydnawn y nawfed ddydd o Hydref,
Y gwr ddoe'n feddw idd ei gartref;
A'i blant a fu y diwrnod hwnw
Heb gael dim bwyd a'u tad yn *feddw!*
- 14 Fe ddygai'r Bibl Sanctaidd gwiwlan
O law ei hynod wraig ei hunan;
Gan ddweud, mi fynaf hwn i'w bonio.
Mae'n rhaid i mi gael swllt i'w gwario.
- 15 A'r wraig a syrthiodd ar ei chluniau,
Gan fegian arno'n hallt ei dagrau, [wyr,
Ganddweud, Fy nghwr, meddianwch syn-
Gochelwch werthu gair yr Arglwydd.
- 16 Yntau ddamnia ei enaid gwirion,
A'i gorph, gan guro'i blant yn greulon,
Ei anwyl wraig a ddwys felldithla,
A'r Bibl santaidd rhwng ei freichia'.
- 17 A'r wraig a ddygai'r Bibl oddiarno,
Ac yntau'n dal i'w dwys labyddio;
A'r plant a aethant holl dan wyllo
O ffordd eu tad i rhyw le i ymguddio.
- 18 Yna neidiai'r dyn anedwydd,
At wddf ei wraig i'w thagu'n ebrwydd,
Aeth ar ei gluniau trist yw'r hanes
Ar frest y fanol, ddoniol ddynes!
- 19 A phan feddyliai'r dyn annuwiol.
Ei fod e' wedi ei lladd yn farwol,
O dan y grate ei phen rhoes wedi'n,
Er mwyn i'r tan ei llosgi'n sydyn.
- 20 Yna aeth a'r Bibl ganddo,
Benthycodd swllt yn union arno;

- Gwariodd hwn mewn llwybrau meddwod
 Sy'n arwain myrdd i'r pwll diwaelod!
- 21 Pan ddaeth ychydig ati ei hunan,
 Yn wael ei gwedd hi giliodd allan.
 Gan ddweud, O dad y trag'wyddolgyd,
 I ti'rwy'n diolch am fy mywvd.
- 22 Ond Duw a biau achub bywyd,
 A thrwyddo ef y wraig a safiwyd;
 Er i'r filain geisio ei mhwdro,
 Yr Arglwydd Ior a fyna ei safio.
- 23 A'r gwr a gysgodd ac a sobrodd,
 Ac am y gwaith a wnaeth a gofiodd;
 I ffwrdd o'r dafarn aeth yn sydyn,
 O blith ei gwmp'ni fel gwallgofddyn.
- 24 Dwys felldithio 'roedd a rhegu,
 Gan ddweud, nid oes maddeuant imi,
 Newynu 'mlant yn ddirugaredd,
 A lladd fy ngwraig yn fy oferredd.
- 25 Echrysol a thrag'wyddol aflwydd
 A gaf am bonio gair yr Arglwydd;
 Gwyliwch! gwyliwch! sobrwch feddwon,
 Dinystriais i fy enaid gwirion!
- 26 Yna'r aeth o olwg dynion,
 Gan dynu ei wallt a churo ei ddwyfron;
 I allt o goed trwy demptiad satan,
 Ac wrth rhyw bren ymgroga ei hunau.
- 27 Fel hyn mae meddwod o'i hir ddilyn
 Yn denu dyn i boen a dychryn;
 O pwy na waedda, Sobrwydd, sobrwydd,
 A nerth i gadw deddfau'r Arglwydd.

R. WILLIAMS.

M. Price, Argraffydd, Merthyr.